Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg Llantrisant
Ffordd Cefn yr Hendy, Meisgyn, Pontyclun, Rhondda Cynon Taf. CF72 8TL
01443 237837 admin@ygggllantrisant.rctcbc.cymru
www.ygggllantrisant.com

Pennaeth *Head Teacher* **Mr R O'Neil**

29.06.26

Annwyl Rieni a Gofalwyr,

Parthed: Trefniadaeth Dosbarthiadau ar gyfer y Flwyddyn Academaidd 2026-2027

Ysgrifennaf atoch yn fy rôl fel Cadeirydd y Llywodraethwyr i roi gwybod ichi am newid yn nhrefniadaeth dosbarthiadau'r ysgol ar gyfer y flwyddyn academaidd 2026-2027 cyn i'r wybodaeth hon gael ei rhannu â'r holl rieni a gofalwyr tua diwedd Tymor yr Haf, ynghyd â'n Hadroddiadau Cynnydd Diwedd Blwyddyn.

Mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth a'r Uwch Dîm Rheoli, hoffem eich hysbysu y bydd y mwyafrif o ddosbarthiadau presennol yr ysgol yn cael eu had-drefnu a'u rhannu i ffurfio strwythurau dosbarth newydd ar draws pob grŵp blwyddyn ar gyfer y flwyddyn academaidd i ddod. Ymgymerir â chreu dosbarthiadau newydd yn unol â pholisi'r ysgol sydd i'w weld ym mhrosbectws yr ysgol ac ar wefan yr ysgol o dan GWYBODAETH ALLWEDDOL - DERBYN DISGYBLION A THREFNIADAETH.

Mae'r penderfyniad hwn wedi'i wneud mewn ymateb i gyfuniad o ffactorau sy'n effeithio ar yr ysgol. Mae'r rhain yn cynnwys gostyngiad yn niferoedd disgyblion ar draws grwpiau blwyddyn, colli aelod o staff addysgu, a gostyngiad yng nghyllideb gyffredinol yr ysgol. Fel llywodraethwyr, mae gennym gyfrifoldeb i sicrhau bod yr ysgol yn parhau'n ariannol gynaliadwy tra'n parhau i ddarparu addysg a chefnogaeth o ansawdd uchel i bob disgybl.

Mae'n bwysig nodi nad yw'r heriau hyn yn unigryw i'n hysgol ni. Mae llawer o ysgolion ar draws yr Awdurdod Lleol yn profi pwysau tebyg, ac mae'r ad-drefnu hwn yn adlewyrchu mater ehangach, Awdurdod Lleol yn hytrach na sefyllfa sy'n benodol i'n hysgol ni yn unig.

Hoffem eich sicrhau y bydd pob disgybl yn cael ei drin yn gyfartal o fewn eu grwpiau blwyddyn, ac na fydd unrhyw blentyn dan anfantais oherwydd y newid hwn. Bydd staff yn cydweithio'n agos ar draws dosbarthiadau cyfochrog i sicrhau cysondeb mewn addysgu, dysgu ac asesu. Bydd yr ysgol yn parhau i ddiwallu anghenion addysgol pob disgybl yn unol â'i hathroniaeth cyfnod nid oedran, gan sicrhau bod y dysgu'n cyfateb yn ofalus i lefel datblygiad a chynnydd pob plentyn.

Bydd gwybodaeth bellach am drefniadau pontio, gan gynnwys cyfleoedd i ddisgyblion gwrdd â'u hathrawon newydd a'u cyd-ddisgyblion, yn cael ei rhannu gan yr ysgol maes o law.

Ar ran y Corff Llywodraethol, diolch i chi am eich dealltwriaeth, cefnogaeth, a phartneriaeth barhaus gyda'r ysgol. Rydym yn parhau i fod yn gwbl ymrwymedig i ddarparu'r addysg a'r gofal gorau posibl i'n holl blant.

Yr eiddoch yn gywir,



Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg Llantrisant
Ffordd Cefn yr Hendy, Meisgyn, Pontyclun, Rhondda Cynon Taf. CF72 8TL
01443 237837 admin@ygggllantrisant.rctcbc.cymru
www.yggglantrisant.com

Pennaeth *Head Teacher* **Mr R O'Neil**

29.06.26

Dear Parents and Carers,

Re: Class Organisation for the 2026-2027 Academic Year

I am writing to you in my role as Chair of Governors to inform you of a change to the school's class organisation for the 2026-2027 academic year prior to this information being shared with all parents and carers towards the end of the Summer Term, along with our End of Year Progress Reports.

In consultation with the Head Teacher and Senior Leadership team, we should like to inform you that the majority of the school's current classes will be reorganised and split to form new class structures across each year group for the coming academic year. The creation of new classes will be undertaken in line with school policy which can be found in the school ***prospectus*** *and on the school website under* ***KEY INFORMATION - ADMISSIONS AND ORGANISATION****.*

This decision has been taken in response to a combination of factors affecting the school. These include a drop in pupil numbers across year groups, the loss of a member of teaching staff, and a reduction in the school's overall budget. As governors, we have a responsibility to ensure that the school remains financially sustainable while continuing to provide high-quality education and support for all pupils.

It is important to note that these challenges are not unique to our school. Many schools across the Local Authority are experiencing similar pressures, and this reorganisation reflects a wider, Local Authority-wide issue rather than a situation particular to our school alone.

We would like to reassure you that all pupils will be treated equally within their year groups, and that no child will be disadvantaged by this change. Staff will work closely together across parallel classes to ensure consistency in teaching, learning, and assessment. The school will continue to meet all pupils' educational needs in line with its stage-not-age philosophy, ensuring that learning is carefully matched to each child's level of development and progress.

Further information regarding transition arrangements, including opportunities for pupils to meet their new teachers and classmates, will be shared by the school in due course.

On behalf of the Governing Body, thank you for your understanding, support, and continued partnership with the school. We remain firmly committed to providing the best possible education and care for all our children.

Yours sincerely,

